# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL, IECHYD A LLES

**(Committee Rooms A/B - Neath Civic Centre)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Iau, 29 Gorffennaf 2021**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd** |
| **Cynghorwyr**: | A.P.H.Davies, O.S.Davies, J.Miller, S.Paddison, S.H.Reynolds, D.Whitelock, A.N.Woolcock, C.Edwards, W.F.Griffiths a/ac H.C.Clarke |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | A.Jarrett, A.Thomas, R Davies, Chele.Howard, Davies, H.Short, G.Evans, T.Davies a/ac C.John |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr A.R.Lockyer a/ac P.D.Richards |

---

1. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021 fel cofnod cywir.

2. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Dewisodd y pwyllgor graffu ar yr eitemau canlynol ar agenda Bwrdd y Cabinet:

Prosbectws Grant Tai Cymdeithasol 2021

Hysbyswyd yr aelodau am Brospectws Grant Tai Cymdeithasol 2021 y cyngor, fel y nodir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Canmolodd aelodau'r ffaith bod modd trosglwyddo'r cynlluniau presennol a oedd yn cael eu dal mewn cronfeydd wrth gefn yn ystod 2020/21 i'r brif raglen yn 2021/22.

Cynhaliwyd trafodaethau ynghylch terminoleg mewn perthynas â rhentu yn ogystal â'r diffiniad ar gyfer tai fforddiadwy, oherwydd tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd tai fforddiadwy o reidrwydd yn fforddiadwy i bawb. Gofynnwyd am ragor o wybodaeth am y meincnod ar gyfer tai fforddiadwy, oherwydd tynnwyd sylw at y ffaith bod tai fforddiadwy'n rhy ddrud i bobl eu rhentu mewn rhai ardaloedd.

Gofynnodd aelodau a fyddai'r grant ar gael i'r cyngor ei ddefnyddio gyda'r posibilrwydd o adeiladu eu tai eu hunain. Tynnwyd sylw at y ffaith bod hwn yn opsiwn ar gyfer cynghorau eraill, fodd bynnag, gan fod Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi trosglwyddo eu stoc tai mewn blynyddoedd blaenorol, nid oedd hynny'n opsiwn.

Roedd aelodau'n hapus i weld bod yr adroddiad yn gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol a bod yr adroddiad wedi ystyried cynllunio yn y dyfodol felly.

Eglurodd swyddogion mai'r ffigurau a gynhwyswyd yn y tabl ar dudalen 11 yr adroddiad oedd £9.9m o grant Llywodraeth Cymru sy'n cyfateb i tua 448 o unedau llety.

Cadarnhawyd nad oedd Dyffryn Aman wedi'i gynnwys yn atodiad 2 yr adroddiad yn dilyn y gwaith a wnaed gan y Gwasanaethau Ymchwil Barn (GYB) yn 2019 gan nad oeddent wedi nodi unrhyw angen am dai ychwanegol yn Nyffryn Amman. Cadarnhaodd swyddogion y byddant yn cadarnhau cywirdeb hyn.

Trafodwyd a oedd niferoedd y  tai yn ddigonol ar gyfer y blynyddoedd i ddod gyda'r cynnydd mewn poblogaeth. Nodwyd bod y niferoedd wedi'u cyfrifo ar y gwaith a wnaed gan y GYB ac roedd yn seiliedig ar dai fforddiadwy.

Gofynnodd aelodau am ddimensiynau'r anheddau i sicrhau eu bod yn ddigon mawr, oherwydd y lleihad mewn meintiau anheddau dros y blynyddoedd. Eglurwyd i’r aelodau fod canllawiau wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru ar ddimensiynau y mae’n rhaid cydymffurfio â nhw. Nodwyd y byddai rhagor o wybodaeth am faint yr anheddau a'r safonau ar gyfer dimensiynau yn cael ei dosbarthu i aelodau'r pwyllgor y tu allan i'r cyfarfod.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

Nododd aelodau'r Blaenraglen Waith a gofynnwyd i'r eitem ganlynol gael ei chynnwys.

- Adroddiad sy'n darparu trosolwg o sut mae adran Tai Castell-nedd Port Talbot a'i pholisïau'n cysylltu â chynlluniau datblygu ar gyfer y dyfodol.

4. **MYNEDIAD I GYFARFODYDD**

**PENDERFYNWYD:** gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 18 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

5. **CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU**

Cynllun Blynyddol Drafft Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar CNPT 2021-2022

Ar ddechrau'r eitem, dywedodd y Cyfarwyddwr wrth yr Aelodau Craffu y defnyddiwyd y Paragraff Eithriedig anghywir – dylai hyn fod wedi bod yn Baragraff 18 ac nid paragraff 14.

Derbyniodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Blynyddol Drafft Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar CNPT 2021-2022, fel y nodir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Yn dilyn trafodaethau, codwyd y pryderon canlynol o fewn yr adroddiad i'w diwygio ym Mwrdd y Cabinet.

- Dylai Effeithiau Cymunedau'r Cymoedd ddarllen 'Dim Effeithiau'.
- Yn yr adran Ymgynghori, dylid dileu'r geiriau canlynol: '... ym mhob un o'r tri awdurdod lleol i gael sylwadau.'
- Dylai manylion Cyswllt y Swyddog ar gyfer Alison Davies ddarllen 'a.davies8@npt.gov.uk'.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan Fwrdd y Cabinet.

**CADEIRYDD**